Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Materion Arolygu

Rhifyn 11 **Ebrill 2009**

Gwybodaeth am drefniadau arolygu

Yn berthnasol i: arolygiadau o bob ysgol, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion

Cynnwys

1	**Gwybodaeth gyffredinol**	**1**
1.1	Estyn 2010	1
1.2	Arweiniad atodol ar arolygu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy abl a dawnus	1
1.3	Canllaw ysgrifennu	1
1.4	Terminoleg	2
1.5	Ailfodelu'r gweithlu	2
2	**Materion arolygu ar gyfer ysgolion cynradd**	**4**
2.1	Athene	4
	• Cwblhau proffiliau	4
	• Newidiadau yn y penawdau adroddiadau pwnc	4
2.2	Gwirio statws iaith ysgol mewn cyfnod cyn-arolygiad	4
2.3	Y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 1	4
2.4	Hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen	5
2.5	Monitro aseswyr cymheiriaid	5
2.6	Adrodd ar addysg grefyddol a phlant o dan bump oed	5
2.7	Adrodd ar gyrhaeddiad yng Nghwestiwn Allweddol 1	6
2.8	Adrodd ar safonau mewn dosbarthiadau ac mewn lleoliadau na chynhelir lle mae 5 disgybl neu lai	6
2.9	Rôl cydlynwyr y cwricwlwm ac arweinwyr pwnc mewn ysgolion cynradd	7
2.10	Socedi diogelwch	8
2.11	Materion Cymraeg ail iaith	8
3	**Materion arolygu ar gyfer ysgolion uwchradd**	**9**
3.1	Materion data	9
	• Gwybodaeth feincnod CA3	9
	• Crynodeb o Berfformiad Ysgolion Uwchradd	9
3.2	Rhoi sylwadau ar ganlyniadau arholiadau mewn adroddiadau pwnc 14-19 Adran 28	10
3.3	Llwybrau Dysgu 14-19: Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)	10

3.4 Asesiad athro yng nghyfnod allweddol 3 11
3.5 Terminoleg 11
3.6 Cymhwyster Bagloriaeth Cymru 12
3.7 Prif Ddysgu CBAC/Edexcel a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru 14
3.8 Prosiect CBAC/Prosiect Estynedig lefelau 1,2 a 3 15

1 Gwybodaeth gyffredinol

1.1 Estyn 2010

Mae Estyn yn gofyn barn ar newidiadau arfaethedig i'r ffordd y caiff darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru eu harolygu. Bydd adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn yn cael ei ddefnyddio i gynllunio trefniadau arolygu newydd a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn 2010.

Nod y trefniadau newydd yw datblygu dull byrrach, cliriach a symlach ar gyfer arolygu. Dysgwyr yng Nghymru sydd wrth wraidd y trefniadau newydd, a fydd yn cael eu cynllunio i ddiwallu eu hanghenion nhw yn ogystal ag anghenion athrawon, rhieni a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r cynigion a'r holiadur ar gael ar wefan Estyn www.estyn.gov.uk. Gellir gofyn am gopïau caled trwy gysylltu â consult@crgresearch.co.uk neu 02920 343 218. Gellir ymateb yn ddienw a bydd yr ymatebion yn cael eu trin yn gyfrinachol. Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 7 Ebrill 2009.

1.2 Arweiniad atodol ar arolygu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy abl a dawnus

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisiau i bob dysgwr gael y dechrau gorau mewn bywyd gyda chyfleoedd ac anogaeth i gyflawni eu potensial dysgu llawn. Ym mis Mai, 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru set o Safonau Ansawdd i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion dysgwyr mwy abl a dawnus. Mae arweiniad atodol ar gyfer arolygwyr annibynnol ac ychwanegol ar arolygu safonau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy abl a dawnus rhwng 3 ac 19 oed mewn ysgolion yng Nghymru ar gael ar y wefan yn:

www.estyn.gov.uk/cyhoeddiadau.

1.3 Canllaw ysgrifennu

Ar ôl cyhoeddi canllaw ysgrifennu Estyn, lluniwyd fersiwn dalfyredig a gellir ei gweld trwy'r ddolen gyswllt isod. Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad sylfaenol ar arddull ysgrifennu, ac mae wedi'i bwriadu i fod yn fersiwn mwy cludadwy a mwy hygyrch o'r canllaw ysgrifennu llawn. Mae'r ddogfen hon yn ddwyieithog a bydd yr un fersiwn ar gael ar rannau Cymraeg a Saesneg y wefan. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r canllaw hwn, cysylltwch â'r tîm cyhoeddiadau yn cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Dolen gyswllt y wefan:

http://www.estyn.gov.uk/about_estyn/abridged_writing_guide_august_2008.pdf

1.4 Terminoleg

Defnyddio 'anghenion dysgu ychwanegol' ac 'anghenion addysgol arbennig' fel termau yn adroddiadau Estyn

Yn unol â gofynion a chanllawiau'r fframwaith arolygu cyffredin ac arweiniad cysylltiedig, mae llawer o adroddiadau arolygu yn cyfeirio'n fynych at anghenion addysgol arbennig (AAA) ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY) fel ei gilydd.

O bryd i'w gilydd, gall y cyfnewidioldeb rheolaidd o ran y termau hyn mewn adroddiadau gyflwyno darlun dryslyd i'r darllenydd. Felly, awgrymir y dylai arolygwyr ddefnyddio 'anghenion addysgol arbennig' (AAA) bob amser yn yr adroddiad ac eithrio wrth amlinellu **Cwestiwn Allweddol 4.** Os caiff yr adroddiad ei drefnu trwy ddefnyddio'r tri gofyniad adrodd ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn fel is-benawdau, yna dylid defnyddio 'ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol ychwanegol' ar gyfer yr agweddau y mae adrannau 4.10 i 4.12 o'r arweiniad yn ymdrin â nhw.

Fodd bynnag, pan fydd yr is-bennawd, 'ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol', wedi cael ei ddefnyddio, dylai awdur yr adroddiad fynd yn ôl at ddefnyddio'r term 'anghenion addysgol arbennig' ar gyfer ymdrin â'r materion a amlinellir yn adrannau 4.10 i 4.12 yn yr arweiniad.

Hefyd, wrth adrodd ar Gwestiwn Allweddol 4, ni ddylai arolygwyr gynnwys barnau ar **safonau** gan:

- ddisgyblion ag AAA,
- disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY),
- plant y gofelir amdanynt,
- plant teithwyr,
- plant sy'n anabl neu sydd ag anghenion meddygol,
- plant ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiad, a'r rheiny sy'n fwy abl ac yn fwy dawnus.

Dylai barnau am gyflawniad gan unrhyw un o'r grwpiau hyn fod yng Nghwestiwn Allweddol 1 fel rhan o'r gofyniad adrodd ar lwyddiant disgyblion wrth gyrraedd nodau dysgu cytûn.

1.5 Ailfodelu'r gweithlu

Mae'n ofynnol i arolygwyr cofrestredig adrodd ar faterion sy'n gysylltiedig ag ailfodelu'r gweithlu yng Nghwestiwn Allweddol 7. Mae'r rhestr wirio MAAd ar gyfer 2008/09 yn nodi dwy agwedd y mae'n rhaid adrodd arnynt:

- sut mae'r ysgol yn defnyddio adnoddau ar gyfer ailfodelu'r gweithlu; a
- defnyddio amser yn effeithiol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.

Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau arolygu yn cynnwys cyfeiriadau penodol at amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon, ond ychydig iawn ohonynt sy'n cyfeirio at

unrhyw agweddau eraill ar ailfodelu'r gweithlu. Dylai arolygwyr cofrestredig gyfeirio at 'Arweiniad atodol Estyn ar arolygu materion llwyth gwaith ac ailfodelu, gan gynnwys cyflwyno amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA)', a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2006. Mae'r arweiniad hwn yn cyfeirio at agweddau eraill sy'n gysylltiedig ag ailfodelu'r gweithlu, gan gynnwys:

- athrawon yn ymgymryd â llai o dasgau clerigol a gweinyddol;
- cydbwysedd gwaith/bywyd gwell ar gyfer athrawon a phenaethiaid;
- amser arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer arweinwyr ysgol;
- cyfyngiad ar faint o amser y mae'n rhaid i athrawon ei dreulio yn cyflenwi dros athrawon sy'n absennol;
- peidio â goruchwylio arholiadau allanol;
- amser dynodedig ar gyfer cyfrifoldebau arweinyddiaeth penaethiaid; a
- newidiadau rôl ar gyfer rhai staff cymorth.

Wrth lunio barn ynglŷn â sut mae'r ysgol yn defnyddio adnoddau ar gyfer ailfodelu'r gweithlu, dylai Arolygwyr Cofrestredig ystyried sut mae'r ysgol wedi ystyried y materion cysylltiedig uchod.

2 Materion arolygu ar gyfer ysgolion cynradd

2.1 Athene

Cwblhau proffiliau

Rhaid i Arolygwyr Cofrestredig sicrhau bod pob ffigur a ddyfynnir mewn adroddiadau arolygu yn gywir a'u bod yn cyfateb yn union i'r ffigurau hynny a nodwyd yn Athene.

Os caiff anghywirdeb mewn ffigurau ei nodi yn ystod cyfnodau monitro ansawdd (MAAd), dyfernir graddau is i arolygwyr cofrestredig.

Newidiadau yn y penawdau adroddiadau pwnc

Mae templedi adroddiad Athene wedi cael eu newid i ddangos y penawdau pwnc newydd ar gyfer cyfnod allweddol 2. Mae'r ffordd y caiff ein templedi adroddiad eu ffurfweddu yn golygu bod teitl cyffredin ar gyfer cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 fel ei gilydd. O ganlyniad, mae'r penawdau pwnc yn awr yn darllen:

- Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer CA1 a CA2 fel ei gilydd; a
- Chelf a dylunio ar gyfer CA1 a CA2 fel ei gilydd.

Wrth i'r Cyfnod Sylfaen symud yn gynyddol i mewn i gyfnod allweddol 1, ni fydd y penawdau pwnc yn berthnasol mwyach, a bydd meysydd dysgu yn dod yn eu lle.

2.2 Gwirio statws iaith ysgol yn y cyfnod cyn-arolygiad

Mae angen i arolygwyr wirio statws iaith ysgol yn y cyfnod cyn yr arolygiad. Os yw ysgol yn ysgol cyfrwng Cymraeg neu'n ysgol ddwyieithog, mae'r ysgol yn dilyn y rhaglenni astudio ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Fodd bynnag, mae ysgol cyfrwng Saesneg yn dilyn y rhaglenni astudio medrau Cymraeg.

2.3 Y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 1

Atgoffir arolygwyr ynglŷn ag amserlen weithredu'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant ar gyfer plant 3-7 oed yng Nghymru:

- Medi 2008 ar gyfer pob plentyn 3 i 4 oed;
- Medi 2009 ar gyfer pob plentyn 4 i 5 oed;
- Medi 2010 ar gyfer pob plentyn 5 i 6 oed; a
- Medi 2011 ar gyfer pob plentyn 6 i 7 oed.

Mae'n berffaith dderbyniol yn ystod y cyflwyniad graddol hwn, y gallai rhai ysgolion fod yn dymuno mabwysiadu'r athroniaeth a'r dulliau addysgu mwy ymarferol sy'n gysylltiedig â'r Cyfnod Sylfaen gyda phlant rhwng 5 a 7 oed sydd yng nghyfnod allweddol 1 ar hyn o bryd.

Mae angen i arolygwyr fod yn sensitif i'r rhesymau dros y gwahanol gyfnodau y gallai ysgolion fod wedi'u cyrraedd wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio yn ystod y cyflwyno graddol hwn, bod gan ysgolion a'u cyrff llywodraethol ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 yn parhau i gael eu hawl statudol i Raglenni Astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Yr unig eithriadau yw ysgolion cynradd sydd, er mis Medi 2004, wedi cael eu dynodi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ysgolion peilot ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r 22 ysgol a roddodd y Cyfnod Sylfaen ar waith flwyddyn yn gynnar, sef yr ysgolion dechrau'n gynnar. Mewn ysgolion o'r fath, caiff Rhaglen Astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer cyfnod allweddol 1 ei datgymhwyso.

Cyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, roedd llawer o'r ysgolion cynradd llai yng Nghymru sydd â dosbarthiadau oedran cymysg eisoes yn cyfuno eu cwricwlwm ar gyfer y blynyddoedd cynnar gydag addysgu Rhaglenni Astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn effeithiol trwy waith testun neu thematig wedi'i gynllunio'n dda. Er bod cyflwyno Rhaglenni Astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn parhau i fod yn ofyniad, bydd arolygwyr yn parhau i arfarnu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion mewn perthynas â'r cwricwlwm statudol presennol yng nghyfnod allweddol 1 hyd at ddiwedd tymor yr haf 2011. Er bod athroniaeth a methodoleg y Cyfnod Sylfaen wedi cael eu mabwysiadu yng nghyfnod allweddol 1, bydd angen i ysgolion ddangos yn eu cynllunio sut maent yn bwriadu addysgu, asesu ac ymdrin â holl Raglenni Astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer cyfnod allweddol 1 trwy feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen.

Mae'r esboniad hwn yn ddefnyddiol ar gyfer arolygwyr cofrestredig wrth esbonio i ysgolion y cyd-destun y bydd arolygwyr yn parhau i ofyn am dystiolaeth pwnc ynddo wrth lunio barn ar safonau cyflawniad disgyblion yng nghyfnod allweddol 1. Mae angen y dystiolaeth hon hefyd er mwyn arfarnu a yw arweinyddiaeth a rheolaeth ysgolion yn cyflawni eu dyletswydd statudol wrth fodloni gofynion cyfreithiol.

2.4 Hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen

Cynhelir digwyddiad hyfforddi nesaf y Cyfnod Sylfaen yn ystod gwanwyn 2010. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gynnig i arolygwyr cynradd cymwys a phrofiadol er mwyn eu galluogi i arolygu disgyblion 3-7 oed yn y Cyfnod Sylfaen.

2.5 Monitro aseswyr cymheiriaid gan arolygwyr cofrestredig

Atgoffir arolygwyr cofrestredig y dylent fonitro'r adborth y mae aseswyr cymheiriaid newydd yn ei roi i athrawon pan fyddant yn cymryd rhan yn eu harolygiad cyntaf.

Dylai Arolygwyr Cofrestredig hefyd archwilio ychydig o'r ffurflenni arfarnu gwersi (FfAGau) a'r ffurflenni arfarnu cyffredinol (FfACau) cyntaf y mae aseswyr cymheiriaid newydd yn eu llunio **cyn** iddynt roi adborth i athrawon.

2.6 Adrodd ar addysg grefyddol a phlant dan bump oed

Dylai arolygwyr ddisgwyl gweld addysg grefyddol yn cael ei haddysgu fel pwnc mewn dosbarthiadau derbyn ac nid trwy feysydd dysgu. Y rheswm am hyn yw, os yw rhieni/gofalwyr yn dewis tynnu eu plentyn o addysg grefyddol, maent hefyd yn cael

eu tynnu o feysydd dysgu ac efallai y bydd agweddau pwysig ar ddysgu'r plentyn yn cael eu colli. Fodd bynnag, yn hytrach na llunio adroddiad pwnc ar wahân ar gyfer plant derbyn, dylai arolygwyr adrodd ar safonau plant mewn addysg grefyddol o dan y maes dysgu mwyaf priodol.

2.7 Adrodd ar gyrhaeddiad yng Nghwestiwn Allweddol 1

Ni ddylai'r adrannau ar gyrhaeddiad mewn adroddiad ysgol gynradd ar Gwestiwn Allweddol 1 fod yn hwy na dau baragraff a dylid eu hysgrifennu'n glir. Dylai'r ddau baragraff hyn gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- yr asesiadau athrawon diweddaraf ar ddiwedd cyfnod allweddol;
- sylwebaeth ar berfformiad dros dair blynedd yn ystod arolygiadau sy'n cael eu cynnal yn ystod tymor yr haf 2009;
- sylwebaeth ar berfformiad dros bedair blynedd o dymor yr hydref 2009, pan fydd arolygydd yn cael gwybodaeth ychwanegol;
- sylwebaeth ar berfformiad dangosydd pwnc craidd (DPC) y garfan Blwyddyn 6 mewn perthynas â phan oeddent ym mlwyddyn 2: y canrannau a gyrhaeddodd lefel 2/3 ym mlwyddyn 2 o'i gymharu â lefelau 4/5 ym mlwyddyn 6; a
- datganiad ar berfformiad cymharol bechgyn a merched dros dair blynedd.

Ni ddylid rhoi datganiadau fel "Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r sefyllfa ac mae'n cymryd camau i wella perfformiad bechgyn" i gyd-fynd â hyn. Fodd bynnag, gellir cyfeirio at 'fesurau' o'r fath yng Nghwestiwn Allweddol 6 fel rhan o'r cynllunio ar gyfer gwella.

- perfformiad yr ysgol yn erbyn perfformiad yr awdurdod lleol a chyfartaleddau cenedlaethol; a
- pherfformiad yr ysgol yn erbyn perfformiad ysgolion tebyg.

Rhaid i'r adroddiad gynnwys esboniad os nad yw gradd yr arolygiad yn adlewyrchu asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a chanlyniadau arholiadau.

2.8 Adrodd ar safonau mewn dosbarthiadau lle mae 5 disgybl neu lai

Mewn ysgolion bach, lle mae 5 disgybl neu lai ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 (CA1) a/neu gyfnod allweddol 2 (CA2), dylid cynnwys y datganiad canlynol yn Atodiad 3 o'r adroddiad, yn hytrach na'r tablau sy'n amlinellu data'r ysgol ar gyfer asesiadau diwedd cyfnod allweddol y Cwricwlwm Cenedlaethol:

> 'Gan fod llai na phump o ddisgyblion yn cael eu hasesu ar ddiwedd CA1 a/neu (dileer fel y bo'n briodol) CA2, nid oes crynodeb o wybodaeth asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn, er mwyn osgoi nodi disgyblion unigol'.

Mewn ysgolion lle mae niferoedd y disgyblion yn isel, dylai arolygwyr barhau i adrodd yn gyffredinol ar safonau yng Nghwestiwn Allweddol 1 ac yn yr adroddiadau pwnc ar gyfer arolygiadau safonol a llawn, ond dylent osgoi meintoli niferoedd gwirioneddol y disgyblion i osgoi nodi disgyblion unigol.

Dylai arolygwyr hefyd ystyried tueddiadau mewn perfformiad dros gyfnod o dair blynedd. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol wrth lunio barnau am berfformiad cyffredinol, ond dylid parhau i ymdrin â chanlyniadau yn ofalus, yn enwedig os yw niferoedd y disgyblion yn gyson isel.

Fodd bynnag, bydd angen i arolygwyr raddio safonau mewn pynciau ar FfAGau a FfACau oherwydd bod yn rhaid cwblhau graddau ar gyfer safonau cyflawniad ar gyfer cronfa ddata Athene i dderbyn y proffil. Mae'r wybodaeth hon yn gyfrinachol i Estyn ac fe'i defnyddir at ddibenion Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ac ar gyfer gwaith arolwg.

2.9 Rôl cydlynwyr y cwricwlwm ac arweinwyr pwnc mewn ysgolion cynradd

Gwella neu gryfhau gwaith cydlynwyr y cwricwlwm ac arweinwyr pwnc yw un o'r argymhellion mwyaf rheolaidd yn adroddiadau Adran 28.

Pan fydd timau arolygu yn llunio barnau ar y rolau hyn, rhaid i arolygwyr gadw mewn cof a yw deiliad y swydd yn cael swydd â thâl ai peidio.

Gellir disgwyl i athrawon sy'n gyfrifol am un o feysydd y cwricwlwm ond y mae eu swydd yn ddi-dâl ymgymryd â'r canlynol o ran y pwnc hwnnw:

- cydlynu'r cynllunio;
- adolygu datblygiadau a diweddaru staff;
- cynghori;
- cydweithredu ag athrawon eraill; a
- chynnal adnoddau ar gyfer y pwnc ar draws yr ysgol.

Dylid llunio barnau ynglŷn â pha mor effeithiol y mae'r rôl yn cael ei chyflawni mewn perthynas â'r cyfrifoldebau uchod. **Ni ddylai arolygwyr gynnwys** agweddau fel monitro gwaith disgyblion neu gynnal arsylwadau ystafell ddosbarth wrth lunio eu barnau.

Gellir disgwyl i athrawon sy'n gyfrifol am un o feysydd y cwricwlwm sy'n cael tâl am eu swydd ymgymryd â'r canlynol o ran y pwnc hwnnw:

- cydlynu'r cynllunio;
- adolygu datblygiadau a diweddaru staff;
- cynghori;
- cydweithredu ag athrawon eraill;
- cynnal adnoddau ar gyfer y pwnc ar draws yr ysgol
- arwain a rheoli athrawon eraill;
- edrych ar safonau addysgu yn y maes pwnc; ac
- edrych ar safonau cyflawniad disgyblion yn y pwnc.

Dylid llunio barnau ynglŷn ag effeithiolrwydd y rolau hyn sydd â thâl mewn perthynas â'r cyfrifoldebau uchod. Bydd yr agweddau y dylid eu hystyried wrth lunio barnau yn cynnwys graddau ac ansawdd monitro ac arfarnu gan gydlynwyr o ran gwaith disgyblion ac addysgu yn y pwnc dan sylw.

2.10 Defnyddio socedi diogelwch mewn ysgolion meithrin

Nid oes gan Estyn bolisi nac arweiniad ynghylch a ddylid defnyddio gorchuddion socedi ai peidio mewn ysgolion meithrin. Mae cyngor ein llawlyfr arolygu i arolygwyr ar faterion iechyd a diogelwch fel a ganlyn:

> "Nid arolygiaeth iechyd a diogelwch yw Estyn. Os ydych yn sylwi ar unrhyw beth sydd yn eich barn chi yn achosi perygl amlwg i ddiogelwch staff, ymwelwyr neu ddisgyblion, dylech rybuddio rheolwyr yr ysgol. Dylech hefyd roi gwybod i reolwyr yr ysgol os ydych yn sylwi ar fygythiadau llai amlwg, a dylid gwneud nodyn ar y ffeil tystiolaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddyletswydd i ddisgrifio achosion o dorri deddfwriaeth iechyd a diogelwch sy'n llai amlwg yng nghorff yr adroddiad arolygu."

2.11 Materion Cymraeg ail iaith

Dyrannu amser

Roedd Materion Arolygu 10 (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2008) yn cynghori mai'r 'dyraniad amser a argymhellir ar gyfer Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 2 yw 90 munud yr wythnos.' Roedd hyn wedi'i seilio ar y dyraniadau amser pwnc a argymhellwyd gan ACCAC pan ddiwygiodd y Swyddfa Gymreig fersiwn flaenorol y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae'r arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ysgolion ar weithredu Cwricwlwm 2008 yn ei gwneud yn glir nad oes unrhyw gyfyngiadau ar ysgolion mwyach o ran dyrannu amser neu drefniadaeth pynciau. Fodd bynnag, mae'n annhebygol iawn y bydd disgyblion yn cyrraedd y lefelau cymhwysedd disgwyliedig mewn Cymraeg ail iaith oni bai bod yr ysgol yn darparu digon o amser. Mewn ysgolion sy'n dyrannu llai na 90 munud bob wythnos ar gyfer Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 2, dylech ystyried yn ofalus a yw hyn yn cael effaith anffafriol ar gyflawniadau disgyblion. Fel y cynghorwyd ym Materion Arolygu 10, dylech hefyd ystyried a yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd ychwanegol i atgyfnerthu a defnyddio eu medrau Cymraeg.

Asesu Cymraeg ail iaith

Bydd asesiadau athrawon o Gymraeg ail iaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dod yn ofyniad statudol o'r flwyddyn ysgol 2009/10. O haf 2010, bydd yn ofynnol i ysgolion adrodd ar ganlyniadau lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol i rieni ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6. Caiff lefelau dysgwyr ar gyfer y tri tharged cyrhaeddiad eu cyfuno i ddarparu lefel pwnc. Cânt eu pwysoli fel a ganlyn:

Targed cyrhaeddiad cyfnod allweddol 2	Pwysoli	Targed cyrhaeddiad cyfnod allweddol 3	Pwysoli
Llafaredd	70%	Llafaredd	60%
Darllen	15%	Darllen	20%
Ysgrifennu	15%	Ysgrifennu	20%

Mae angen i arolygwyr ystyried y pwysiadau hyn yn ofalus wrth arfarnu safonau mewn Cymraeg ail iaith.

3 Materion arolygu ar gyfer ysgolion uwchradd

3.1 Materion data

Diben yr adran hon yw rhoi gwybodaeth i arolygwyr ysgolion uwchradd am newidiadau diweddar i setiau data a ddarperir gan Estyn. Mae hyn yn rhoi diweddariad i rannau o Atodiad 7 o'r llawlyfr arweiniad uwchradd a gyhoeddwyd ym mis Medi 2008.

Gwybodaeth feincnod CA3

Mae ffigurau meincnod ar gyfer holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol bellach yn cael eu darparu ar gyfer arolygwyr cofrestredig. Dylai'r rhain barhau i wella eu dilysrwydd wrth i weithdrefnau safoni ddatblygu ymhellach.

Crynodeb o berfformiad ysgolion uwchradd

Cyflwynwyd y crynodeb o berfformiad ysgolion uwchradd (SSSP) am y tro cyntaf yn 2008. Cyflwynwyd rhai o'r dangosyddion newydd fel dangosyddion dros dro yn 2007 fel ychwanegiad at ffurflen RE2.

Yn 2008, cyhoeddwyd RE2 llai ochr yn ochr â'r SSSP wrth newid yn raddol i SSSP. Mae hyn yn darparu dadansoddiad tueddiad parhaus ar gyfer ysgolion ac arolygwyr o ddangosyddion RE2 nes bod y dangosyddion SSSP newydd yn adeiladu tair blynedd gwerth o ddata.

Mae'r dangosyddion trothwy SSSP newydd yn cynnwys ystod ehangach o gymwysterau na'r rheiny ar ffurflen RE2. Wrth adrodd ar gyrhaeddiad 2008, dylai arolygwyr gyfeirio at ddangosyddion ar y SSSP yn lle dangosyddion ar ffurflen RE2. Yn benodol, dylent gyfeirio at y canran sy'n cyflawni trothwy lefel 2 yn lle 5 gradd A*-C neu fwy mewn TGAU neu gyfwerth.

Y bwriad yw mai'r canran sy'n cyflawni'r trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg fydd y prif ddangosydd yn CA4, sy'n adlewyrchu pwysigrwydd cyflawniad ym medrau craidd llythrennedd a rhifedd. Mae'r SSSP hefyd wedi cadw'r dangosydd pwnc craidd, er bod ei ddiffiniad wedi newid i gynnwys ystod ehangach o gymwysterau.

Dylid esbonio'r dangosyddion trothwy newydd yn gryno ym mhob adroddiad arolygu fe bod yr adroddiadau mor hygyrch ag y bo modd i ddarllenwyr. Rhoddir diffiniad byr isod:

Trothwy Lefel 1 – casgliad o gymwysterau ar lefel 1 sydd gyfwerth â 5 Gradd A*-G TGAU
Trothwy Lefel 2 – casgliad o gymwysterau ar lefel 2 sydd gyfwerth â 5 Gradd A*-C TGAU
Trothwy Lefel 3 – casgliad o gymwysterau ar lefel 3 sydd gyfwerth â 2 Radd A-E Safon Uwch

I gael rhagor o fanylion ar gymwysterau, sgorau pwyntiau a throthwyon, cyfeiriwch at arweiniad SSSP yn:

http://new.wales.gov.uk/statsdocs/schools/datacollection/ssspnotese.pdf

Pan fydd gwahaniaeth sylweddol rhwng y trothwy lefel 2 a'r canran sy'n cyflawni 5 gradd A*-C neu fwy mewn TGAU, mae'n debygol o fod yn arwydd bod yr ysgol yn cynnig cyrsiau ar wahân i TGAU yn CA4, yn enwedig cyrsiau galwedigaethol. Efallai y caiff hyn oblygiadau ar gyfer arolygu Cwestiwn Allweddol 3 lle mae arolygwyr yn arfarnu'r graddau y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr.

3.2 Rhoi sylwadau ar ganlyniadau arholiadau mewn adroddiadau pwnc Adran 28

Mae hyn i atgoffa arolygwyr y dylai sylwadau ar ganlyniadau arholiadau mewn adroddiadau pwnc:

- gyfeirio at ganlyniadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf o leiaf;
- cyfeirio at gyfnod hwy pan fo modd, yn enwedig os yw grwpiau addysgu bach yn gwneud llunio barn yn anodd (er enghraifft, grwpiau Safon Uwch);
- cymharu canlyniadau â chyfartaleddau Cymru;
- datgan a yw canlyniadau yn cynrychioli cyflawniad da pan gânt eu rhoi yng nghyd-destun galluoedd disgyblion neu ysgolion tebyg sy'n defnyddio gwybodaeth feincnod a gwybodaeth o Gronfa Ddata Arholiadau Cymru (ond nad ydynt yn rhoi llawer o fanylion);
- mewn TGAU, cyfeirio at raddau uwch A*/A yn ogystal â Graddau A*-C; ac
- mewn Safon Uwch, cyfeirio'n bennaf at raddau uwch, a chyfeirio at y gyfradd llwyddo yn unig (A-E) os yw'n wahanol iawn i'r cyfartaledd cenedlaethol (os yw disgyblion yn sefyll Safon Uwch byddem fel arfer yn disgwyl iddynt basio, neu fel arall dylent fod yn dilyn cymhwyster gwahanol).

3.3 Llwybrau Dysgu 14-19: Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)

Mae **Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)** yn mynd trwy'r broses ddeddfwriaethol yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae angen i arolygwyr fod yn ymwybodol o brif nodau'r ddeddfwriaeth, ac yn enwedig:

- y nifer a math o gyrsiau y mae angen eu cynnig yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16;
- cyflwyno'r ddeddfwriaeth yn raddol yn ôl oedran ac ardal awdurdod lleol; a'r
- gofyniad tebygol ar gyfer cydweithio.

Dangosir y trefniadau arfaethedig o ran nifer y dewisiadau yng nghyfnod allweddol 4 yn Nhabl 1. Mae'r broses yn cynnwys trosglwyddo ardal awdurdod lleol i un o dri band; bydd pob brand yn cynrychioli dilyniant tuag at gyflawni'r hawl ofynnol lawn erbyn dyddiad penodol. Bydd pob band wedi cyrraedd yr hawl ofynnol lawn erbyn 2012.

Tabl 1: Cyfnod allweddol 4 – nifer y cyrsiau a'r bandiau awdurdod lleol

Blwyddyn	2009	2010	2011	2012
Band A	28	30	30	30
Band B	26	28	30	30
Band C	24	26	28	30

Bydd manylion am ddewisiadau ôl-16 yn cael eu hanfon atoch maes o law.

Er nad yw'r Mesur yn gyfraith eto a gallai'r manylion newid, bydd angen i chi ystyried pa mor dda yw cynlluniau ysgolion ar gyfer eu rhoi ar waith. Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Mesur oddi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: National Assembly for Wales/Legislation/Measures/Proposed Learning and Skills Measure.

3.4 Asesiad athrawon yng nghyfnod allweddol 3

Atgoffir arolygwyr am y gofyniad adrodd canlynol ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2:

> 'Dylech adrodd ar drefniadau, yn seiliedig ar safoni a chymedroli, i gryfhau asesiad athrawon yng nghyfnod allweddol 3.'

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu os yw ysgol wedi cael ymweliad gan wirwyr allanol i wirio systemau a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer asesiadau athrawon, dylai'r arolygydd sy'n gyfrifol am Gwestiwn Allweddol 2 ofyn am gael gweld adroddiad adborth y gwiriwr a gwneud yn siŵr bod yr ysgol wedi ymateb i unrhyw argymhellion. Bydd pob ysgol wedi cael adroddiad adborth gan wirwyr erbyn haf 2010.

Mae'r uchod yn cyfeirio at yr adroddiad gan wirwyr allanol ar systemau a gweithdrefnau cyffredinol ac ni ddylid eu cymysgu â **chymedroli** tystiolaeth sampl pwnc sy'n cael ei gynnal ar gyfer pob pwnc dros gyfnod o dair blynedd. Nid ydym yn disgwyl i arolygwyr pwnc wirio adroddiadau cymedroli a thystiolaeth sampl ar gyfer pynciau unigol.

3.5 Terminoleg

Caiff rhai termau eu defnyddio'n anghyson mewn adroddiadau arolygu weithiau. A fyddech cystal â defnyddio'r termau isod fel y disgrifir.

Achredu: Cyrsiau sy'n cael eu hachredu, nid dysgwyr.

Cadw: Mae'n cyfeirio at y rheiny sy'n *gorffen* cwrs. Ni ddylid defnyddio'r term 'cadw' ar gyfer y rheiny sy'n aros ymlaen yn y chweched dosbarth. Gellir defnyddio 'cwblhau' hefyd i ddisgrifio a yw dysgwyr yn gorffen eu cyrsiau.

Dilyniant: Yn ôl y cyd-destun, gall hyn gyfeirio nid yn unig at gynnydd mewn dysgu ond hefyd mynd ymlaen i leoedd neu gyrsiau eraill, e.e. coleg lleol, cyflogaeth, y chweched dosbarth. I wneud yr ystyr yn glir, mae angen ychwanegu geiriau eraill yn aml.

Sylwer: Wrth ddisgrifio dilyniant, dylai adroddiadau roi syniad o'r hyn y mae disgyblion yn ei wneud ar ôl Blwyddyn 11. Dylent gyfeirio nid yn unig at y rheiny sy'n aros yn y chweched dosbarth, ond hefyd at y rheiny sy'n mynd ymlaen i lefelau astudio pellach neu uwch yn rhywle arall a'r rheiny sy'n symud ymlaen i gyflogaeth hefyd. Gallai aros ymlaen yn y chweched dosbarth fod yn beth da i lawer o ddisgyblion, ond i rai, nid yw'n beth da, a byddai'n well pe baent yn mynd i rywle arall.

3.6 Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Mae nifer gynyddol o ysgolion yn cymryd rhan yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC), gyda llawer yn ei gyflwyno i garfannau cyfan o ddisgyblion. Erbyn mis Medi 2009, bydd 62% o'r holl ysgolion 11-18 yng Nghymru yn cynnig y Fagloriaeth yn y chweched dosbarth, a bydd 24% o'r holl ysgolion uwchradd yn ei chynnig yn CA4. Mae felly'n fwyfwy tebygol y byddwn yn arolygu mwy a mwy o ysgolion sy'n cynnig Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

O fis Medi 2009, fel rhan o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru, bydd 11 o ysgolion yn dechrau ar y prif gymwysterau dysgu a phrosiect newydd mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, peirianneg a TGCh. Ceir rhagor o wybodaeth yn:

http://www.cbac.co.uk/index.php?subject=30&level=112.

Ceir mwy o wybodaeth isod am y Prif Ddysgu yn y rhifyn hwn o Materion Arolygu.

Mae strwythur cyffredin i gymwysterau Bagloriaeth Cymru ar bob lefel. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn gweithio naill ai tuag at y diplomâu sylfaen neu ganolraddol ar hyn o bryd. Gallai disgyblion ôl-16 fod yn gweithio tuag at ddiplomâu sylfaen, canolraddol neu uwch, yn dibynnu ar lefel eu prif gymwysterau.

Strwythur Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (ODDA = Oriau Dysgu Dan Arweiniad)

	Astudiaethau Craidd	Dewisiadau
Diploma Sylfaen Bagloriaeth Cymru (Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol lefel 1) Ar gael cyn-16 ac ôl-16	**Tystysgrif Craidd ar lefel 1 (250 o oriau addysgu tybiannol)** • Pedwar Medr Allweddol ar lefel 1, y mae'n rhaid iddynt gynnwys un o gyfathrebu, cymhwyso rhif a TGCh, a thystiolaeth o fod wedi ymgymryd â phob un o'r chwe Medr Allweddol. • Ymchwilio Unigol ar lefel 1 (20 awr, nid oes ei angen os yw ymgeiswyr yn dewis Prosiect Sylfaen yn y dewisiadau, ar yr amod ei fod yn bodloni gofynion CBC). • Ceir manylion isod am ofynion penodol y cwricwlwm (mae'r oriau yn dybiannol). i) Cymru, Ewrop a'r Byd (CEP) - 60 awr ar bedair elfen sy'n cynnwys materion gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a Modiwl Iaith 20 awr. ii) 15 awr o 'Weithgaredd Menter Tîm'. iii) ABCh - 30 awr a 15 awr o 'Gyfranogiad Cymunedol'. iv) Addysg sy'n Gysylltiedig â Gwaith (AGG) – 30 awr o Weithio gyda Chyflogwr	**Cymhwyster allanol cymeradwy ar FfCC lefel 1 sydd gyfwerth â 480 o ODDA** • Pedair gradd D-G mewn TGAU neu gyfwerth; neu • CGC lefel 1 neu Ddiploma Rhagarweiniol BTEC (480 o ODDA); neu • Brif Ddysgu lefel 1 (240 o ODDA = 20% o'r cwricwlwm yn CA4)) + lefel 1 y Prosiect Sylfaen (60 o ODDA) ac unrhyw gymhwyster/ gymwysterau cymeradwy sydd gyfwerth â lefel 1 y FfCC neu 180 o ODDA o leiaf
Diploma Canolraddol Bagloriaeth Cymru (Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol lefel 2) Ar gael cyn-16 ac ôl-16	**Tystysgrif Craidd ar lefel 2 (250 o oriau addysgu tybiannol)** • Pedwar Medr Allweddol, gan gynnwys cyfathrebu, cymhwyso rhif a TGCh. Dylid cyflawni o leiaf dau ar lefel 2 a dau ar lefel 1. Rhaid cael tystiolaeth o fod wedi ymgymryd â phob un o'r Chwe Medr Allweddol. • Ymchwilio Unigol ar lefel 2 (20 awr, nid oes ei angen os yw ymgeiswyr yn dewis Prosiect Uwch yn y dewisiadau, ar yr amod ei fod yn bodloni gofynion CBC). • Gofynion penodol y cwricwlwm fel ar gyfer y Diploma Sylfaen uchod	**Cymhwyster allanol cymeradwy ar FfCC lefel 2 sydd gyfwerth â 480 o ODDA** • Pedair gradd A*- C mewn TGAU neu gyfwerth; neu • CGC lefel 2 neu BTEC 1af ar lefel Pasio (6 uned); neu • Brif Ddysgu lefel 2 (420 o ODDA) a chymhwyster Prosiect Uwch L2 (60 o ODDA)
Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol lefel 3) Ar gael cyn-16 ac ôl-16	**Tystysgrif Craidd ar lefel 2 (280 o oriau addysgu tybiannol)** • Tri Medr Allweddol ar lefel 3, a rhaid i un ohonynt gynnwys cyfathrebu, cymhwyso rhif a TGCh, ynghyd â'r Medrau Allweddol eraill ar lefel 2. • Ymchwilio Unigol ar lefel 3 (20 awr, nid oes ei angen os yw ymgeiswyr yn dewis Prosiect Estynedig yn y dewisiadau, ar yr amod ei fod yn bodloni gofynion CBC). • Gofynion penodol y cwricwlwm fel ar gyfer y Diploma Sylfaen**,** ond Menter Tîm a Chyfranogiad Cymunedol am 30 awr, yn hytrach na 15	**Cymhwyster allanol cymeradwy ar FfCC lefel 3 sydd gyfwerth â 720 o ODDA** • Dwy radd A-E TAG Safon Uwch neu gyfwerth; neu • CGC lefel 3, neu Dystysgrif Genedlaethol BTEC ar gyfradd Pasio (12 uned); neu • Brif Ddysgu lefel 3 (540 o ODDA) a chymhwyster prosiect estynedig L3 (120 o ODDA) ac unrhyw gymhwyster/ gymwysterau cymeradwy ar CGC L3 (60 o ODDA)

Mae arweiniad atodol ar arolygu Bagloriaeth Cymru ar gael ar wefan Estyn ac mae'n rhoi arweiniad i arolygwyr ar ddefnyddio'r saith cwestiwn allweddol i arfarnu CBC – gweler:

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_Supplementary_Guidance_for_Inspecting_the_Welsh_Baccalaureate_Qualification_May_2007.pdf

3.7 Prif ddysgu a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru

Cefndir

Ym mis Mehefin 2008, lansiodd APADGOS y cymwysterau cymwys newydd prif ddysgu ar gyfer eu haddysgu yn gyntaf ym mis Medi 2009. Mae pedwar llinyn o ddysgu:

- adeiladu a'r amgylchedd adeiledig
- peirianneg;
- technoleg gwybodaeth; ac
- astudiaethau creadigol a'r cyfryngau

Gall darparwyr, yn gweithio gyda'u cydlynwyr rhwydwaith 14-19 awdurdod lleol, ddilyn y cymwysterau hyn trwy ystod o gyrff dyfarnu, gan gynnwys Edexcel, CBAC ac OCR. Y nod yw cyflwyno ystod eang o gyrsiau dros y tair blynedd nesaf.

Beth yw prif ddysgu?

Cymhwyster sy'n gysylltiedig â sector ar lefelau 1, 2 a 3 yw prif ddysgu. Mae'n rhoi pwyslais ar ddysgu trwy wneud, ac mae cyfran ddiffiniedig o'r rhaglen yn ymwneud â chymhwyso gwybodaeth a medrau trwy waith perthnasol a thasgau, problemau a chyd-destunau sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae prif ddysgu yn galluogi datblygu a chymhwyso medrau generig, gan gynnwys medrau allweddol.

Sut mae prif ddysgu yn cyd-fynd â Chymhwyster Bagloriaeth Cymru?

Prif ddysgu yw un o'r dewisiadau posibl a allai fodloni'r gofyniad dewisiadau ar gyfer y Fagloriaeth. Gallai dewisiadau eraill gynnwys TGAU, TAG/Safon Uwch, BTEC, cymwysterau cenedlaethol OCR, CGCau a chymwysterau allanol cymeradwy eraill sy'n cael eu cydnabod yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC).

Gellir cyflawni elfennau o graidd y Fagloriaeth trwy'r dewisiadau, a gall prif ddysgu gyfrannu yn y ffyrdd canlynol:

- *Medrau allweddol:* caiff cyfleoedd i ddatblygu medrau allweddol eu nodi'n glir yn y fanyleb prif ddysgu.
- *Profiad gwaith:* mae'r pwyslais ar y sector mewn prif ddysgu yn rhoi cyfleoedd i fodloni'r gofyniad hwn.
- *Cymru, Ewrop a'r Byd ac ABCh:* gellir ymdrin â rhai agweddau mewn prif ddysgu hefyd.

Cyflwyno prif ddysgu yn raddol

Cyfnod 1 – ei addysgu am y tro cyntaf yng Nghymru ym mis Medi 2009	Cyfnod 2 – ei addysgu am y tro cyntaf yng Nghymru ym mis Medi 2010	Cyfnod 3 – ei addysgu am y tro cyntaf yng Nghymru ym mis Medi 2011	Cyfnod 4 – ei addysgu am y tro cyntaf yng Nghymru ym mis Medi 2011
– peirianneg; – adeiladu a'r amgylchedd adeiledig; – TG; – Astudiaethau creadigol a'r cyfryngau	– cymdeithas, iechyd a datblygiad; – busnes, gweinyddu a chyllid; – astudiaethau'r amgylchedd ac astudiaethau'r tir; – astudiaethau gwallt a harddwch; – lletygarwch; – gweithgynhyrchu a dylunio cynnyrch	– gwasanaethau cyhoeddus; – adwerthu; – chwaraeon a hamdden weithredol; – teithio a thwristiaeth	– y dyniaethau; – ieithoedd; – gwyddoniaeth

3.8 Prosiect/prosiect estynedig lefelau 1, 2 a 3

Cefndir

Bydd cymwysterau prosiect a phrosiect estynedig ar gael yng Nghymru o fis Medi 2009. Bydd y prosiectau hyn ar gael fel cymwysterau unigol, ond bydd hefyd yn bosibl eu defnyddio fel cymwysterau procsi ar gyfer yr Ymchwiliad Unigol ym Magloriaeth Cymru. Bydd y prosiect ar gael ar lefel 1 a lefel 2, a'r prosiect estynedig ar lefel 3, lle bydd gyfwerth â chymhwyster UG, a bydd yn werth 60 o bwyntiau UCAS.

Neilltuir 60 o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer prosiectau lefel 1 a 2 a 120 o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer y prosiect estynedig.

Mae'r prosiect yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gynnal astudiaeth yn fanwl, ar sail diddordeb personol neu agwedd ar eu hastudiaethau. Gall y prosiect fod ar ffurf adroddiad ysgrifenedig, astudiaeth maes, adroddiad gwyddonol, arteffact, astudiaeth yn seiliedig ar berfformiad, astudiaeth yn seiliedig ar hamdden, neu'n gyflwyniad yn seiliedig ar y cyfryngau. Rhaid i'r prosiect fod yn waith gwreiddiol y dysgwr ac nid yn seiliedig ar aseiniadau i'w cyflwyno ar gyfer cymwysterau eraill.

Os yw ysgolion yn defnyddio'r prosiect fel procsi ar gyfer yr ymchwiliad unigol yn y Fagloriaeth, rhaid iddynt gysylltu â'r corff dyfarnu (CBAC) i sicrhau bod y prosiect yn bodloni holl ofynion yr ymchwiliad unigol.

Rôl y goruchwyliwr

Neilltuir goruchwyliwr ar gyfer pob dysgwr i roi cymorth a chyngor un i un yn ystod y prosiect. Mae'r goruchwyliwr yn llofnodi datganiad yng nghofnod asesu'r goruchwyliwr i ardystio bod pob dysgwr wedi gweithio'n annibynnol ar y prosiect.